

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

20 Mai 2020

Via Zoom

Nodyn

CSCC John Lloyd Jones, Cadeirydd Tom Crick, Comisiynydd Stephen Gifford, Comisiynydd Helen Howells, Comisiynydd Rob Irvine, Comisiynydd Eluned Parrott, Comisiynydd Rod Smith, Comisiynydd Chris Sutton, Comisiynydd Emma Thomas, Comisiynydd Ceri Doyle, Comisiynydd	Nicola Britton, Swyddfa CSCC Adrian Davies, Swyddfa CSCC Leri George, Swyddfa CSCC Yn ystod eitem 1: John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru Ymddiheuriadau Richard Feasey, Comisiynydd Tom Wharf, Comisiynydd
--	--

1. Covid 19 a blaenoriaethau CSCC

Trafododd y comisiynwyr effeithiau tebygol y pandemig yn y tymor byr a'r tymor hir ar feysydd o fewn cylch gwaith y comisiwn. Bydd cyllido trafndiaeth gyhoeddus yn y dyfodol yn anodd; mae cysylltedd digidol dibynadwy i bawb wedi dod yn fwy pwysig nag erioed gyda'r newid i weithio ac addysgu/dysgu o adref; mae'r angen am dai fforddiadwy yn creu cyfle i adeiladu cartrefi clyfar, cynaliadwy.

Cytunodd comisiynwyr i flaenoriaethu'r gwaith cyfredol ar gyfathrebiadau digidol. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â rôl y Comisiwn yn ystod argyfwng covid-19.

Camau i'w cymryd

Llythyr at y Gweinidog i'w ddrafftio a'i rhannu â'r comisiynwyr: Adrian Davies a Rob Irvine

2. Ynni

Ystyriodd y comisiynwyr restr o gwestiynau allweddol sydd angen eu harchwilio ymhellach er mwyn deall a yw seilwaith cyfredol y grid cenedlaethol yn gydnherth, a pha ddatblygiadau sy'n debygol yn y dyfodol. Cytunodd comisiynwyr i ffocysu ar yr

agwedd hon o'r gwaith ymchwil ym maes ynni cyn symud ymlaen i faterion sy'n codi o'r dystiolaeth a dderbyniwyd ar gynhyrchu ynni (ynni morol a chymunedol).

Camau i'w cymryd

Cwestiynau i'w hychwanegu/haddasu yn dilyn y drafodaeth: Adrian Davies

3. UFA

Cytunwyd i gyfarfod eto trwy zoom ar 18 Mehefin.